**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol – Canolfan Prenteg / Rhithiol**

**Dyddiad:**

14eg o Fai, 2026

**Presennol**

John Till (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg)

Er bod opsiwn i fynychu yn rhithiol, bu i bawb fynychu'r cyfarfod mewn person.)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd Stephen Churchman, Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)

**Datgan Buddiant**

RJ – Cynllunio

**Penderfyniadau**

**Cytundeb Gwastraff Masnachol 2026/27** - Wedi derbyn pris o £336 am y flwyddyn. Penderfynwyd derbyn y pris a pharhau gyda'r cytundeb. Pawb yn gytûn.

**Cynllunio**

**C25/0633/36/LL –** Eglwys Pentrefelin, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PU. Trosi adeilad yn uned gwyliau

**C25/0635/36/CR** Eglwys Pentrefelin, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PU Addasiadau mewnol ac allanol i drosi'r adeilad yn uned gwyliau

Penderfynwyd **gwrthwynebu'r** ceisiadau uchod am y rhesymau canlynol:

- Mae perchnogion tai gwyliau presennol yn ffeindio hi yn anodd cyrraedd y rheolau gosod a threth y Llywodraeth, sef y trothwy o 182 diwrnod.
- Mae'r eiddo yng nghanol y pentref
- Nid yw'r ffordd mae'r eiddo arno wedi'i fabwysiadu ac mae cyflwr y ffordd yn hynod wael ac anaddas
- Yr effaith y gall eiddo gwyliau gael trigolion cyfagos e.e. cynnydd mewn traffig bob awr o'r dydd.

Ychwanegwyd:

**NP2/16/446B -** Cais ôl-weithredol i godi lloches storio biniau ynghyd a llecyn caled concrit i fynedfa'r maes gwersylla.
Gwersyll Ty'n Llan, Cwm Pennant. LL51 9AX. **Dim gwrthwynebiad.**